



T R O S O L W G

ANATOMI CYNLLUN BUSNES

Mae angen i'ch cynllun busnes adlewyrchu eich syniadau ac uchelgeisiau yn glir a dylai esblygu wrth i'ch busnes dyfu a newid.

Dim ond un cyfle sydd i greu argraff dda, felly ceisiwch osgoi defnyddio jargon, ceisiwch gyflwyno eich gweledigaeth yn glir a cheisiwch sicrhau bod y cynllun yn gryno ac yn cynnwys dim mwy na 12 tudalen.



CRYNODEB GWEITHREDOL

Ysgrifennwch hwn ar y diwedd ar ôl i chi orffen gweddill y cynllun, ni ddylai fod yn fwy na 1 - 2 tudalen..




DATGANIAD CENHADAETH

Esboniwch pam eich bod yn sefydlu busnes.

TÎM RHEOLI

Pwy sy'n arwain y fenter newydd, a pha sgiliau sydd ganddynt?



EICH AMCANION

Gosodwch amcanion mesuradwy i anelu atynt ac aseswch eich cynnydd wrth i chi eu cyflawni.



EICH CYNNYRCH NEU WASANAETH

Eich syniad mawr chi ydyw, ceisiwch ei ddisgrifio'n glir ac yn gryno, fel petai'r cynnyrch neu wasanaeth yn gwbl newydd i'r darllenydd gan osgoi jargon.



Y FARCHNAD

Ymchwiliwch, ymchwiliwch, ymchwiliwch a dewch yn arbenigwr yn eich maes. Dylech wybod pwy sy'n cystadlu yn eich erbyn a nodi'r bwch yn y farchnad, p'un ai a ydych yn dechrau neu'n ceisio datblygu eich busnes.

STRATEGAETH FARCHNATA

Gyda gwaith ymchwil o safon byddwch gennych syniad clir o'r brand, y farchnad darged, faint i godi, y llwybr i'r farchnad a'r ymgyrchoedd hyrwyddo mwyaf cost-ffeithiol i fanteisio ar bob cyfle i werthu.

GWEITHREDIADAU

Dylech gynnwys gwybodaeth berthnasol o ran status y busnes, contractau, manylion banc, eiddo, yswiriant, offer, cyflenwadau a deunyddiau. Gofalwch eich bod yn disgrifio eich holl bolisiâu TGCh, diogelu data ac iechyd a diogelwch.

FFACTORAU RISG

Beth all fynd o'i le?
Ystyriwch y cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau.



ATODIADAU

Os oes syniadau cymhleth gennych, ystyriwch nodi rhai o'r elfennau hyn mewn atodiad. Dylech hefyd gynnwys CVs manwl ynghyd â'r holl esboniadau technegol a llenyddiaeth ymchwil ategol.

RHAGOLYGN ARIANNOL

Sut ydych yn rhoi'r pecyn ynghyd?
Edrychwch ar y llif arian, elw a cholled a gofynion cyllido.
Beth fydd ei angen arnoch i fantoli'r gyllideb?



Tel: 01446 704636

ebost: economic@valeofglamorgan.gov.uk

WWW.VALEOFGLAMORGAN.GOV.UK/BUSINESS

